OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3183

## Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002

**Diddymu Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansowdd (Aer) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 1989 a darpariaethau trosiannol**

**13.**—(1) Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru)2001(**1**) drwy hyn yn cael eu diddymu.

(2) Mae Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer 1989(**2**)**,** i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn cael eu diddymu yn unol â'r is-baragraffau canlynol—

(a) diddymir rheoliad 2(1) (gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr a gronynnau mewn daliant) a rheoliad 4(1) (gwerth terfyn ar gyfer plwm mewn aer) gydag effaith o 1 Ionawr 2005 ymlaen;

(b) diddymir rheoliad 6 (gwerth terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid yn yr atmosffer) gydag effaith o 1 Ionawr 2010 ymlaen.

(3) Tan 1 Ionawr 2005, os caiff y dulliau a ragnodir gan y Rheoliadau hyn ar gyfer asesu mater gronynnol mewn daliant eu defnyddio er mwyn dangos cydymffurfedd ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 80/779/EEC dyddiedig 15 Gorffennaf 1980 ynghylch gwerthoedd terfyn ansawdd aer a gwerthoedd bras ar gyfer cyfanswm y gronynnau mewn daliant(**3**)**,** rhaid i'r data a gesglir fel hyn gael ei luosi â ffactor o 1.2.

(4) Lle—

(a) yr oedd yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gam, neu yr oedd wedi'i awdurdodi i gymryd cam, drwy unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001;

(b) yr oedd cam o'r fath wedi'i gymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau hynny; ac

(c) y mae'r ddarpariaeth dan sylw yn cael ei hailddeddfu gan y Rheoliadau hyn,

mae'r cam i'w drin, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel pe bai wedi'i gymryd o dan y Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2001/2683 (Cy. 224).
(**2**) O.S. 1989/317, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/3146 ac a ddiddymwyd yn rhannol, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/2683 (Cy. 224).
(**3**) OJ L229, 30.8.1980, t.30.